Together we will end homelessness

# EVERYBODY IN

## Sut i roi diwedd ar ddigartrefedd ym Mhrydain Fawr



## Crynodeb Gweithredol



> “Roeddwn i wastad yn meddwl mai cysgu allan oedd digartrefedd... Ond mae’n golygu bod mewn llety anaddas a dros dro hefyd... Mae cael rhywle diogel a sefydlog i fyw ynddo yn rhywbeth y mae pawb yn ei haeddu.”
>
> **Codi**

## Beth yw cynnwys y cynllun

Amlinella’r cynllun hwn y datrysiadau ar sail tystiolaeth a all roi diwedd ar ddigartrefedd ym Mhrydain Fawr. Mae'n seiliedig ar y gred y dylai pawb gael – a bod yn barod am – le diogel, sefydlog i fyw. Mae’n cynnwys datrysiadau i’r hirdymor, yn hytrach na chyd-fynd â ffafriaeth wleidyddol gyfredol, gan adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio yma a thramor i roi diwedd ar ddigartrefedd. Dengys y cynllun gostau atal a datrys digartrefedd i bobl, ynghyd â’r newidiadau polisi sy’n ofynnol i ni gyflawni hynny.

Mae’r cynllun wedi’i gynllunio i helpu llywodraethau Cymru, Lloegr a’r Alban. Bydd yn cael ei ddiweddaru a’i wella’n rheolaidd wrth i ni gasglu mwy o wybodaeth am yr hyn sy’n gweithio i roi terfyn ar ddigartrefedd.

## Sut cafodd y cynllun ei lunio

Datblygwyd y cynllun gydag ystod eang o arbenigwyr digartrefedd trwy gydol blwyddyn Crisis yn troi’n 50. Y tair prif raglen a oedd yn bwydo iddo oedd: adolygiad tystiolaeth ryngwladol ar raddfa fawr o’r hyn sy’n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd yma a thramor; ymgynghoriad gyda dros 1,000 o bobl ar draws Prydain, gan gynnwys pobl gyda phrofiad o ddigartrefedd, arbenigwyr polisi ac arfer y sector a swyddogion llywodraeth; ac ymchwil newydd ei gomisiynu gan academyddion arweiniol a sefydliadau lle cafwyd diffyg tystiolaeth.

Darllen y cynllun cyfan:
**www.crisis.org.uk/plan**

## Pam nawr?

Mae bron i 160,000 o aelwydydd yn profi'r ffurfiau gwaethaf ar ddigartrefedd ym Mhrydain. Os byddwn yn parhau fel yr ydym ni, disgwylir i hyn fwy neu lai ddyblu yn ystod y 25 mlynedd nesaf:

| 2016 | 2021 | 2026 | 2031 | 2036 | 2041 |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **158,400** | **161,800** | **186,600** | **214,100** | **249,300** | **314,800** |

## Beth ydym ni'n ei feddwl trwy roi diwedd ar ddigartrefedd

Nid yw rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn golygu na fydd unrhyw un byth yn colli eu cartref eto. Mae'n golygu mai anaml y bydd hynny'n digwydd, a bod datrysiad cyflym pan fydd yn digwydd. Dengys y cynllun hwn sut i sicrhau:

**Nad oes unrhyw un yn cysgu allan:** boed hynny mewn pebyll, ceir neu, ar y gwaethaf, ar y strydoedd

**Bod gan bawb le diogel, sefydlog i fyw:** nad yw unrhyw un mewn llety argyfwng megis hostel neu loches nos heb gynllun i symud yn gyflym i gartref

**Os gallwn ni ragweld digartrefedd, fe allwn ei atal:** fel nad oes unrhyw un yn cael ei orfodi i adael eu cartref neu sefydliad gwladol fel carchar, heb unrhyw le i fynd



# Rhoi diwedd ar gysgu allan

Cysgu allan yw'r ffurf fwyaf peryglus o ddigartrefedd, eto i gyd mae digon o dystiolaeth ar gael ar sut i roi diwedd arno. Ni ddylem fyth dderbyn unrhyw un yn cysgu ar y strydoedd.

Dylai pawb sy'n profi digartrefedd fod â'r hawl i gefnogaeth, beth bynnag yw eu cefndir. Rhaid i ni adnabod yn gyflym pawb sy'n cysgu allan a'u helpu cyhyd ag y cymer hi i ganfod a chadw cartref. Dylai'r rheini sydd angen cymorth tymor byr yn unig, megis cymorth gyda blaendal, gael eu helpu i gael cartref diogel, gweddus yn hytrach na datrysiad dros dro. I'r rheini sydd angen llawer o gefnogaeth, mae Tai yn Gyntaf yn ymdriniaeth sydd wedi'i phrofi:

- **Mae Tai yn Gyntaf yn gweithio dros bobl gydag anghenion uchel a chymhleth**
- **Pobl yn symud i dai cyffredin, parhaol**
- **Yna mae ganddynt fynediad at gefnogaeth hirdymor o ansawdd uchel cyhyd â bod ei hangen**

**Mae'r cynllun yn cynnwys rhestr lawn o argymhellion polisi sy'n ofynnol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i roi diwedd ar ddigartrefedd.**

**Rhai o'r datrysiadau yn y maes hwn yw:**

- Sicrhau bod llety argyfwng bob amser ar gael i'r rheini mewn angen brys
- Ariannu ar gyfer cefnogaeth bersonol, gadarn i'r holl gysgwyr allan, gan ganolbwyntio ar eu symud i lety parhaol
- Sicrhau mai Tai yn Gyntaf yw'r dewis i unrhyw un digartref gydag anghenion cymhleth

## Diwygiadau ehangach

### Deddfwriaeth

Mae system gyfreithiol gref yn sail i bob datrysiad i roi diwedd ar ddigartrefedd. Er bod rhannau o ddeddfwriaeth digartrefedd Prydain ymhlith y mwyaf blaengar yn y byd, mae pobl yn dal i ddisgyn trwy'r bylchau yn y systemau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.


Mae ein system gyfreithiol yn diogelu miloedd rhag digartrefedd bob blwyddyn ond mae angen gwneud mwy o hyd. Rydym angen net diogelwch cyflawn o amddiffyniad cyfreithiol i bawb sy'n ddigartref, ar sail yr egwyddorion allweddol hyn. Mae pob person digartref yn haeddu cymorth. Dylent fod yn gallu cael mynediad at gymorth ble bynnag a phryd bynnag y mae ei angen arnynt. Dylai awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill fod â dyletswyddau cadarn er mwyn atal digartrefedd. A dylid cael arolygiaeth reoleiddio glir ar sut y maen nhw'n ymgymryd â'u dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth.

**Ymhlith y datrysiadau yn y maes hwn y mae:**

- Galluogi i bawb gael mynediad at gymorth, gan gynnwys diddymu angen blaenoriaeth yng Nghymru a Lloegr
- Sicrhau nad yw diffyg cysylltiad lleol byth yn rhwystr at gefnogaeth
- Cyflwyno rheoleiddio cadarn a monitro sut y mae cyrff allweddol yn cefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd



# Cael pawb mewn i gartref





# Atal digartrefedd

Mae mwyafrif helaeth pobl ddigartref ym Mhrydain mewn llety dros dro megis hosteli a llochesi nos, neu'n cysgu ar soffa a lloriau ceginau pobl. Mewn sefyllfaoedd lle nad oes modd atal digartrefedd, rhaid cael ymateb cyflym sy'n sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i lety prif ffrwd o fewn cymunedau cyffredin.

Er y bydd bob amser angen am ryw ffurf ar lety argyfwng i'r rheini ag angen di-oed, gall ymdriniaeth wedi'i harwain gan dai ynghyd â'r gefnogaeth gywir ar gyfer pob unigolyn sicrhau ein bod yn isafu ar ba mor hir y mae pobl yn ddigartref. Dim ond datrysiad dros dro y dylai llety argyfwng fod – yn lle hynny rhaid i bobl gael hawl cynyddol i gartref, gan roi'r cyfle gorau iddynt fod yn iach, cael swydd a theimlo'n rhan o gymdeithas.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid bod digon o dai y gall pobl ddigartref eu fforddio ar gael:



**Mae angen arnom**


**100,500**

**o gartrefi cymdeithasol y flwyddyn**

**Ymhlith y datrysiadau yn y maes hwn y mae:**

- Gosod cyfyngiad amser ar ddefnydd o lety dros dro anaddas
- 100,500 o gartrefi cymdeithasol newydd bob blwyddyn am y 15 mlynedd nesaf i fodloni anghenion pobl ddigartref a phobl ar incymau isel – gan gynnwys y rheini wrth risg o ddigartrefedd
- Ariannu Ymyraethau Amser Critigol, ymdriniaeth ar sail tystiolaeth sy'n helpu pobl i symud yn gyflym i'w cartref eu hunain

Y ffordd orau o fynd i'r afael â digartrefedd yw ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Os oes llwybrau rhagweladwy at ddigartrefedd, megis gadael y system ofal neu garchar, dylem wneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl i ganfod a chadw cartref. Mae atal digartrefedd yn gost-effeithiol – ond yn bwysicach, dyna'r peth cywir i'w wneud.




Mae'r syniad o ganolbwyntio ar atal digartrefedd wedi'i ddatblygu'n dda ar draws Prydain ond mae bylchau yn parhau i fodoli sy'n atal rhai pobl rhag cael y cymorth y mae ei angen arnynt pan mae ei angen arnynt fwyaf. Rhaid i bawb wrth risg tyngedfennol o ddigartrefedd allu cael – sy'n golygu bod yn rhaid i lywodraethau ddarparu digon o arian i gynghorau a sefydliadau perthnasol eraill i gamu i'r adwy pan fydd angen. Rhaid i ni hefyd fynd i'r afael â methiant parhaus sefydliadau gwladol i atal pobl rhag disgyn i ddigartrefedd wrth adael eu gofal.

**Ymhlith y datrysiadau yn y maes hwn y mae:**

- Dyletswydd ar awdurdodau lleol yn yr Alban i atal digartrefedd
- Dyletswydd ehangach ar gyrff cyhoeddus eraill ar draws Prydain Fawr i atal digartrefedd
- Ariannu ar gyfer awdurdodau lleol i ddarparu set orfodol o weithgareddau i helpu i atal digartrefedd, gan gynnwys cyfryngu teuluol a chefnogi pobl i gadw eu tenantiaethau


## Lles a thai

Nid yw rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn bosibl oni bai bod gennym ddigon o dai ar gael a bod gan bobl fodd o gadw eu cartrefi.

Rhaid i ni ostwng y pwysau ar fywydau pobl a achosir gan gostau tai uchel, budd-daliadau annigonol a diffyg cefnogaeth ar gael. Mae hyn yn golygu adeiladu digon o gartrefi, gan gynnwys tai cymdeithasol, i bobl ddigartref fyw ynddynt, ynghyd ag amddiffyniad cynyddol i'r rheini sy'n rhentu. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod pobl yn ariannol alluog i gadw eu cartrefi. Rydym angen Budd-dal Tai sydd wirioneddol yn talu am gost tai, ynghyd â chefnogaeth barhaus i bobl sydd ei hangen – boed hynny yn gymorth wrth ddod o hyd i swydd a thalu biliau, neu gefnogaeth i helpu pobl i deimlo'n dda yn feddyliol ac yn gorfforol.

**Ymhlith y datrysiadau yn y maes hwn y mae:**

- Budd-dal Tai sydd wirioneddol yn talu costau tai ac yn adlewyrchu'r codiadau rhent a rhagwelir
- Tenantiaeth rhent preifat safonol newydd yng Nghymru a Lloegr gyda chyfyngiadau ar godiadau rhent blynyddol
- Cefnogaeth cyflogaeth a thai integredig arbenigol i bobl ddigartref



Nid yw Budd-dal Tai yn ddigon i dalu am renti lleol yn sawl rhan o'r wlad - dengys y map yr ardaloedd â rhai o'r bylchau mwyaf.

## Costau

Byddwn angen arian i gyflenwi'r datrysiadau yn y cynllun, ond byddwn ni'n arbed arian hefyd. Mae PricewaterhouseCoopers LLP wedi amcangyfrif mai cyfanswm y gost o gefnogi pobl ddigartref yn ein pum diffiniad i roi terfyn ar ddigartrefedd rhwng 2018 a 2041 yw **£19.3bn**...



... a bydd yn cyflenwi budd-daliadau o **£53.9bn***



* mae'r rhain ar delerau Gwerth Presennol ar brisiau 2017 ac yn gymwys i'r datrysiadau penodol a gostiwyd yn eu model

## Gweithred Llywodraeth

Er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd, bydd angen i bob llywodraeth feddwl yn strategol. Rhaid iddynt weithio ar draws holl adrannau llywodraeth perthnasol, ar lefel leol a chenedlaethol, ar weledigaeth hirdymor ar y cyd ar sut i'w gwireddu.

## Everybody In

Gyda'n gilydd, rydym yn galw ar holl grwpiau gwleidyddol i ymrwymo i roi diwedd ar ddigartrefedd am byth, ac ar i lywodraethau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gynhyrchu cynllun gweithredu a fydd yn cael pawb sy'n ddigartref i mewn i gartref diogel a sefydlog o fewn 10 mlynedd.

Rhannwch eich cefnogaeth yn:
**www.crisis.org.uk/EverybodyIn**

# Ynglŷn â Crisis

Crisis yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl ddigartref. Rydym yn ymrwymedig i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Bob dydd, gwelwn effaith ddinistriol ddigartrefedd ar fywydau pobl. Bob blwyddyn rydym yn gweithio ochr yn ochr â miloedd o bobl ddigartref, i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau a throi eu cefnau ar ddigartrefedd am byth.

Trwy ein hymchwil arloesol i achosion a chanlyniadau digartrefedd a'r datrysiadau iddo, gwyddom beth sydd ei angen i roi diwedd arno.

Ynghyd ag eraill sy'n rhannu ein penderfyniad, rydym yn cynnig ein gwybodaeth, ein profiad a'n penderfyniad i ymgyrchu dros y newidiadau a fydd yn datrys yr argyfwng digartrefedd unwaith ac am byth.

Fe wyddom nad yw digartrefedd yn anochel. Gwyddom y gallwn, gyda'n gilydd, roi diwedd arno.

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis). Rhifau Elusen Cofrestredig: E&W1082947, SC040094. Rhif Cwmni: 4024938.
CRI0041_EXEC_SUM_AW_WELSH